Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Bethel
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL55 1AX

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Bethel

Lleolir Ysgol Gynradd Bethel yng nghanol pentref Bethel, tua thair milltir i'r dwyrain o dref Caernarfon yn awdurdod lleol Gwynedd. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 150 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 27 oed meithrin. Mae 5 dosbarth yn yr ysgol gan gynnwys 4 dosbarth oed cymysg.

Tros y tair blynedd ddiwethaf, tua 4% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r canran cenedlaethol, sy'n 18%. Mae tua 90% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 15% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n is na'r canran cenedlaethol, sef 21%.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2012 a phenodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym mis Medi 2018.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cryf iawn ac yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hynod lwyddiannus mewn ystod o wahanol weithgareddau creadigol ac integredig.

Mae safonau lles, ymddygiad ac agweddau bron bob disgybl tuag at ddysgu yn ardderchog. Mae cryfder perthnasoedd gweithio rhwng disgyblion a staff yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol. Rhoddir bri ar barch a chwrteisi rhwng disgyblion â'i gilydd, a rhwng plant ac oedolion o fewn amgylchedd gofalgar, cefnogol a Chymreig ei naws.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm ymarferol ysgogol a chyfoethog i'r disgyblion, sy'n ennyn diddordeb bron pob un ohonynt yn llwyddiannus iawn. Caiff disgyblion lais amlwg wrth lywio eu dysgu. Mae ymroddiad staff i gyflwyno strategaethau sy'n codi hyder a datblygu gwydnwch y disgyblion yn cyfrannu'n hynod o effeithiol at sicrhau eu bod yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Mae'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus ac annibynnol.

Mae'r pennaeth a'r dirprwy yn cynnig arweinyddiaeth hynod effeithiol, a chyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Mae diwylliant o wella yn treiddio'r ysgol gydag adolygu parhaus a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ganolog i'w ethos. Nodwedd arbennig yw'r modd y mae cyfrifoldebau'n cael eu dosrannu'n hynod o effeithiol. Mae hyn yn arwain at gymuned ddysgu gref.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Rhagorol** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Rhagorol** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau sillafu Saesneg disgyblion cyfnod allweddol 2

A2 Creu cyfleoedd i athrawon gydweithio ag athrawon o ysgolion eraill i ymchwilio a gwerthuso effaith eu hymdrechion i sefydlu'r cwricwlwm newydd ar ddeilliannau disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â chynllunio strategol i gyflwyno nifer o strategaethau blaengar sy'n hyrwyddo awch a brwdfrydedd disgyblion at ddysgu, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Rhagorol**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cryf iawn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae bron pob disgybl yn cymhwyso'r rhain yn hyderus a llwyddiannus iawn mewn ystod o wahanol weithgareddau creadigol ac integredig.

Mae disgyblion y blynyddoedd cynnar yn gwrando'n ofalus gan fynegi barn yn aeddfed wrth drafod eu gweithgareddau. Erbyn Blwyddyn 2, mae bron pob un yn siarad yn fyrlymus mewn amrediad o gyd-destunau, er enghraifft wrth drafod gwahanol drychfilod. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn cyfrannu'n effeithiol i drafodaethau grŵp ac yn mynegi eu syniadau, eu barnau a'u teimladau yn huawdl mewn brawddegau estynedig, er enghraifft wrth drafod effaith gwastraff plastig ar y môr. Nodwedd gref a chyson o waith yr ysgol yw'r ffordd mae'r disgyblion yn defnyddio iaith raenus yn naturiol a digymell. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd gan newid yn rhwydd o un iaith i'r llall.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda iawn. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau darllen cynnar yn fuan ac yn magu hyder wrth fwynhau gweithgareddau cyfoethog. Mae ganddynt fedrau ffonig cadarn wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr medrus. Mae rhan fwyaf disgyblion cyfnod allweddol 2 yn darllen yn ddeallus ac yn aeddfed yn y ddwy iaith. Gwnânt ddefnydd hynod effeithiol o'u medrau i gywain gwybodaeth o lyfrau a thestunau amrywiol ac oddi ar wefannau priodol, er enghraifft i gyfoethogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm wrth gymharu bywyd pobl yn oes y Celtiaid â bywyd pobl yn yr Hen Aifft.

Mae rhan fwyaf disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn hynod effeithiol. O'r cychwyn cyntaf, maent yn cofnodi llythrennau, cymalau a geiriau syml ac yn datblygu hyder yn gyflym. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n annibynnol ac yn datblygu'n ysgrifenwyr creadigol a medrus. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n aeddfed mewn amrediad eang o gyd-destunau. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn cynhyrchu gwaith o safon uchel, er enghraifft wrth ysgrifennu erthygl papur newydd am ddirgelwch y bag. Maent yn defnyddio geirfa aeddfed yn eu hysgrifennu ynghyd ag effeithiau a chymariaethau yn llwyddiannus iawn i gyfoethogi eu gwaith. Maent yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y Gymraeg. Er hyn, mae gormod o wallau sillafu cyffredin yn nodwedd o waith lleiafrif o ddisgyblion yn Saesneg.

Ar draws yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion afael cadarn iawn ar ffeithiau rhif, siâp a data ac maent yn defnyddio'r medrau hyn yn hyderus wrth ddatrys problemau. Nodwedd gref yw'r modd mae bron pob disgybl yn ymateb i heriau mathemateg pen ar ddechrau gwers gan ddangos dealltwriaeth gadarn o'r hyn maent wedi ei ddysgu yn flaenorol. Mae bron pob disgybl yn trin rhifau yn gyflym ac yn gywir ac yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau'n hyderus i gyfrifo problemau amrywiol. Mae

rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn dangos cynnydd arbennig wrth ddefnyddio eu medrau mesur yn gelfydd ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth greu modelau o bryfaid o wahanol faint yn yr ardal gelf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd bron pob disgybl yn hynod gadarn, gyda'r disgyblion sy'n fwy abl yn cyflawni'n uchel iawn. Nodwedd arbennig yw eu gallu i drosglwyddo'u medrau mewn amrywiaeth o gyd-destunau yn fedrus iawn i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth greu ffeil o ffeithiau am anifeiliaid prin.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r ystod lawn o fedrau TGCh i gefnogi eu gwaith mewn meysydd dysgu ac ar draws y cwricwlwm. Nodwedd eithriadol o'u gwaith yw eu defnydd medrus a chelfydd o amrywiaeth eang o raglenni i greu ffilmiau diddorol a chreadigol i safon uchel iawn. Mae bron pob disgybl yn y cyfnod sylfaen yn hyderus iawn wrth ddefnyddio amrediad o raglenni sy'n cyfoethogi eu dysgu yn effeithiol. Maent yn defnyddio llechi electronig yn hynod effeithiol i gofnodi eu gwaith ac i ddatblygu eu medrau llafar. Mae bron pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud dewisiadau aeddfed ynglŷn â pha offer i'w defnyddio i gyflawni tasgau penodol. Maent yn cymhwyso eu medrau TGCh i safon uchel ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth greu cyflwyniadau amlgyfrwng o'u gwaith i rannu gydag aelodau eraill eu dosbarth. Erbyn Blwyddyn 6, mae bron pob disgybl yn defnyddio'r rhyngrwyd yn llwyddiannus iawn i chwilio am wybodaeth am gynefinoedd anifeiliaid prin, er enghraifft. Maent yn creu a defnyddio cronfa ddata a thaenlenni'n ddeallus wrth geisio codi arian i fabwysiadau panda yn Tsieina.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae safon lles ac agwedd bron pob disgybl tuag at ddysgu yn ardderchog. Mae safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob disgybl mewn gwersi, ac o amgylch yr ysgol, yn arbennig o dda. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn mynychu'n gyson ac yn hyderus bod staff yn ymateb i unrhyw bryderon sydd ganddynt yn brydlon. Mae bron pob disgybl yn hynod gwrtais tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae'r rhyngweithiad cadarnhaol a'r lefelau cryf o gydweithio ymhlith disgyblion o bob oed, wrth weithio a chwarae, yn nodwedd gref yn yr ysgol. Maent yn eithriadol o ofalgar o'i gilydd ac yn dangos parch mawr tuag at eraill mewn gwersi, yn y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol. Enghraifft hynod dda o hyn yw'r ffordd aeddfed mae disgyblion hŷn, sy'n aelodau o'r Criw Clên, yn gofalu am eraill yn ystod amseroedd egwyl a chinio.

Mae bron pob disgybl yn dangos balchder mawr yn eu hysgol, eu cymuned a'u Cymreictod. Maent yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio'n naturiol wrth sgwrsio gyda'i gilydd. Maent yn siarad yn hyderus am eu hysgol a'u cymuned ac yn ymfalchïo yn eu dwyieithrwydd, eu diwylliant a'u treftadaeth Gymreig. Mae bron pob disgybl yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned, er enghraifft wrth gefnogi'r eisteddfod leol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o'u diwylliant yn ogystal â datblygu ymdeimlad o falchder yn eu cymuned.

Trwy ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau effeithiol, mae bron pob disgybl yn meddu ar rai o'r medrau hanfodol ar gyfer dysgu'n effeithiol ac maent yn dangos parodrwydd i fynd i'r afael â phrofiadau newydd yn syth. Mae bron pob un yn barod i ddechrau gweithgareddau yn frwdfrydig, yn canolbwyntio'n dda, yn cydweithio'n gytûn ac yn cadw'n ddygn ar dasg dros gyfnodau estynedig. Maent yn mwynhau cael eu herio ac yn gweithio'n dda yn annibynnol, gan arddangos lefel uchel o

ddyfalbarhad. Enghraifft wych o hyn yw'r defnydd naturiol a wna'r disgyblion o'r pwerau dysgu a'r dyffryn dysgu wrth drafod sut mae gwneud camgymeriadau yn rhan annatod o'u dysgu. O ganlyniad, mae bron pob un yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith ac yn datblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus ac annibynnol.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd aeddfed y mae bron pob disgybl yn lleisio'u barn ar yr hyn maent yn ei ddysgu, gan gynnwys dewis themâu. Drwy gyfrannu at gynllunio themâu ymarferol mewn meysydd ar draws y cwricwlwm, mae disgyblion yn ymrwymo'n llwyddiannus iawn i'w dysgu. Maent yn aml yn dewis lefel yr her y maent yn ei dilyn mewn tasgau penodol ac yn esbonio'r rhesymau dros hynny. Mae bron pob disgybl yn ymateb yn gadarnhaol iawn i'r adborth adeiladol mae'r athrawon yn ei roi iddynt. O oed cynnar, mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth dda iawn o'u gallu personol ac o sut y gallant ddatblygu a gwella'u gwaith ymhellach. Erbyn Blwyddyn 6, mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos aeddfedrwydd arbennig wrth arfarnu'r hyn maent wedi ei gyflawni ac adnabod yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd yn gydwybodol â rolau a chyfrifoldebau arwain fel aelodau o'r cyngor ysgol, ysgol werdd, ysgol iach neu ddewiniaid digidol. Maent yn ysgwyddo cyfrifoldebau'n aeddfed ac yn deall eu bod yn rhoi llais amlwg i'w cyd-ddisgyblion ac yn eu galluogi i gael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol a lles eu cyfoedion. Maent yn ymfalchïo yn yr hyn y maent yn ei gyflawni i wella'r ysgol. Nodwedd ragorol yw cyfraniad aeddfed y cyngor ysgol wrth gyflwyno gwybodaeth am fwlio mewn gwasanaeth. Mae'r 'arwyr ar lein' yn weithgar wrth atgoffa'u cyd-ddisgyblion am reolau'r rhyngrwyd. O ganlyniad, mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau doeth am fwyta ac yfed yn iach. Mae'r holl ddisgyblion yn deall bod ymarfer y corff yn rheolaidd yn cael effaith gadarnhaol ar eu ffitrwydd, iechyd a lles corfforol. Enghraifft wych o hyn yw'r sesiynau ymarfer corff egnïol ben bore ar gais y llysgenhadon chwaraeon ynghyd â chyfnod meddylgarwch byr i dawelu. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn barod i ddechrau gweithgareddau'r bore yn frwdfrydig ac yn canolbwyntio'n dda. Mae'r disgyblion hŷn yn ymwybodol bod mynychu'r clybiau chwaraeon ar ôl ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau, eu ffitrwydd a'u gallu i gydweithio.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Rhagorol

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol iawn, ac mae'r berthynas arbennig sy'n bodoli rhwng oedolion a disgyblion yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion. Mae awyrgylch ddysgu gadarnhaol a chefnogol ym mhob dosbarth, lle mae athrawon yn cymell a rheoli ymddygiad disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau'n fedrus i sicrhau ymglymiad parod bron pob disgybl. Mae hyn yn arwain at gydweithio effeithiol iawn a datblygu brwdfrydedd ac awch y disgyblion tuag at ddysgu.

Mae athrawon yn darparu amrediad o brofiadau dysgu ymarferol, ysgogol a chyfoethog i'w disgyblion sy'n bodloni anghenion bron pob un ohonynt yn llwyddiannus. Maent yn darparu themâu trawsgwricwlaidd a rhaglenni gwaith diddorol a dychmygus sy'n ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac yn cryfhau

eu hymrwymiad i'w gwaith yn effeithiol iawn. Datblygir medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion yn naturiol fel rhan annatod o'r cynllunio. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trosglwyddo a chymhwyso'u medrau'n hyderus iawn ymhob maes dysgu. Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n arbennig o dda yn yr ysgol. Defnyddir amrediad o weithgareddau dychmygus a heriol sy'n magu annibyniaeth ymysg disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac i feddwl drostynt eu hunain o oed ieuanc iawn. Yn ddiweddar, mae'r staff wedi datblygu'r ardal allanol yn hynod o gelfydd er mwyn datblygu medrau'r disgyblion ymhellach. Maent yn gwneud defnydd hyblyg o'r ardal hon i ddarparu gweithgareddau ysgogol sy'n cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau. Wrth addasu'r cwricwlwm i fodloni dibenion y cwricwlwm newydd i Gymru, mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ymarferol a chreadigol iawn, er enghraifft wrth herio disgyblion i geisio datrys dirgelwch y bag. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd cynyddol a gwerthfawr i ddisgyblion wneud penderfyniadau pwysig mewn perthynas â'u gwaith. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu hagwedd tuag at eu dysgu.

Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli, â'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r holl aelodau staff yn fodelau iaith cadarn ac yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson a naturiol yn ystod eu gweithgareddau. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn defnyddio geirfa gyfoethog a graenus. Mae pwyslais clir ar ddatblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar Gymru a'r etifeddiaeth Gymreig. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol, eu hanes a'u diwylliant.

Mae athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gyfoes dda ac maent yn defnyddio'r wybodaeth honno'n gelfydd wrth gynllunio gwersi diddorol a phrofiadau dysgu cyfoethog i'w disgyblion. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol, ac yn cysylltu eu gwersi'n fedrus â dysgu blaenorol. Maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir i'w disgyblion, ac yn darparu tasgau sydd wedi eu teilwra'n gelfydd ar gyfer yr ystod lawn o allu o fewn y dosbarthiadau. Mae hyn yn cymell diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion yn eu dysgu, ac yn sicrhau eu bod yn ymroi'n llawn i'w gwaith. Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau lle mae'r addysgu ar ei orau, mae cyflwyniadau dychmygus ynghyd â chyflymder y gwersi yn nodweddion cryf o'r addysgu. Yn y dosbarthiadau hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn ac maent yn herio bron pob disgybl yn effeithiol iawn. Maent yn holi'n fedrus i ymestyn dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion er mwyn eu herio i feddwl a rhesymu eu hatebion ar lefel uwch. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac i ymgymryd â'r tasgau'n frwdfrydig ac yn annibynnol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio'n effeithiol iawn ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddysgu a chynnydd bron pob disgybl. Mae'r athrawon yn cynnig adborth cadarn i ddisgyblion er mwyn iddynt wneud gwelliannau a datblygu eu gwaith ymhellach. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith a gwneud gwelliannau. Mae athrawon yn ymyrryd yn sensitif i gynorthwyo disgyblion ar adegau priodol yn ystod gwersi, er enghraifft i'w hannog i wirio eu cynnydd yn erbyn amcanion gwersi a'u targedau personol ac i ddefnyddio'r wal weithio fel arf i wella eu gwaith. O ganlyniad, erbyn Blwyddyn 6, mae bron pob disgybl yn gwybod yn dda iawn am ei ddatblygiad fel dysgwr, yn cymryd cyfrifoldeb dros ei waith a'i gynnydd ac yn gallu trafod hyn yn hyderus.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae ansawdd y gofal ac arweiniad a ddarperir gan yr ysgol yn eithriadol o uchel. Mae'r ysgol yn gymuned hynod o hapus, weithgar a chynhwysol sy'n hyrwyddo pwysigrwydd parch a chwrteisi yn gyson. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol iawn at yr agweddau cadarnhaol sydd gan y disgyblion at eu gwaith ac at naws gynhwysol yr ysgol. Mae cryfder y perthnasoedd gweithio sy'n bodoli rhwng disgyblion a staff yn nodwedd arbennig o waith yr ysgol ac yn cyfrannu'n helaeth at yr awyrgylch ddysgu effeithiol sydd yno. Mae gan yr holl staff ddisgwyliadau uchel iawn o ran ymddygiad, ymdrech a lles disgyblion. Fe amlygir hyn yn ymddygiad ardderchog y disgyblion a'r ffordd maent yn ymdrin â'i gilydd

Mae ymroddiad staff i gyflwyno strategaethau sy'n codi hyder a datblygu gwydnwch y disgyblion yn cyfrannu'n hynod o effeithiol at sicrhau bod disgyblion yn dangos lefelau uchel o gymhelliant, diddordeb a balchder yn eu gwaith. Mae'r holl athrawon yn gwneud defnydd cyson ac effeithiol iawn o strategaethau fel y pwerau dysgu a'r dyffryn dysgu i annog y disgyblion i ddyfalbarhau. Mae hyn yn meithrin dysgwyr annibynnol sy'n mwynhau cyfleoedd i fyfyrio ar eu gwaith, esbonio sut i'w wella ac i anelu at gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mae'r staff yn ystyried llais y disgybl o ddifri, sy'n cyfrannu'n effeithiol iawn at gyfleoedd iddynt ymgymryd â chyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar eu dysgu.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol a mynegiannol disgyblion yn nodwedd arbennig. Nodwedd eithriadol o'r ddarpariaeth yw'r modd y mae athrawon yn annog disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg a'u medrau TGCh wrth ymwneud â'r celfyddydau creadigol. Mae'r defnydd dychmygus o lechi electronig yn cyfrannu'n sylweddol at hyn, er enghraifft wrth i ddisgyblion greu cyflwyniadau dramatig o safon uchel am gorryn chwantus yn bwyta adar. Mae'r ysgol yn cefnogi'r eisteddfod leol yn rheolaidd yn ogystal â chyflwyno cyngherddau a sioeau Nadolig. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion berfformio ac i gyfrannu yng ngweithgareddau eu cymuned leol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hynod effeithiol a thrwyadl i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae hyn yn helpu staff i adnabod unrhyw ddisgyblion sydd angen cymorth neu her ychwanegol yn gyflym. Mae athrawon yn ymateb yn ddeallus i anghenion unigolion i sicrhau bod bron pob un yn cyrraedd hyd eithaf ei allu. Maent yn trefnu ystod eang o raglenni ymyrraeth amrywiol a chyfoethog iddynt, sy'n ennyn eu diddordeb ac sy'n anelu i fodloni anghenion pob un. Mae hyn yn sicrhau cefnogaeth ofalgar i unigolion a grwpiau o ddisgyblion sy'n eu galluogi i wneud cynnydd cadarn a chyson. Mae'r strategaethau ar gyfer gwella lles a chodi hunanhyder disgyblion bregus yn nodwedd gref iawn o waith yr ysgol ac mae canlyniadau yn dangos effeithiolrwydd y rhain. Mae cynlluniau addysg unigol y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryno a chlir. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu'n gyson ar y cyd â'r disgyblion a'u rhieni, gan eu haddasu'n bwrpasol yn ôl yr angen. Mae'r ysgol yn cydweithio'n glòs ag amrywiaeth o asiantaethau er mwyn darparu cefnogaeth werthfawr i ddisgyblion a'u rhieni.

Mae'r ysgol yn sefydlu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rhieni. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'n fawr sut mae'r ysgol yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau a digwyddiadau'r ysgol. Enghraifft effeithiol o hyn yw sut mae'r ysgol yn trefnu

gweithdai rhifedd fel bod rhieni yn fwy ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud i gefnogi dysgu eu plant gartref. O ganlyniad, mae ymglymiad gwerthfawr gan rieni yn addysg eu plant ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd. Mae rhieni a'r gymuned yn cyfrannu cyllid sylweddol, er enghraifft drwy ddarparu cyfarpar cyffrous i ardal allanol y cyfnod sylfaen ac wrth brynu adnoddau TGCh sy'n galluogi'r ysgol i wireddu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau doeth am fwyta ac yfed yn iach. Trefnir amrywiaeth eang o weithgareddau a chlybiau allgyrsiol sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu lles a ffitrwydd disgyblion. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodoli gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth a'r dirprwy yn cynnig arweinyddiaeth flaengar a chadarn ac yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel iawn ac mae'r ddau yn angerddol iawn am y gymuned maent yn ei gwasanaethu. Maent yn hynod effeithiol wrth osod a hybu gweledigaeth i'r ysgol sy'n seiliedig ar 'Breuddwydio - Credu - Llwyddo' ac sy'n canolbwyntio ar hapusrwydd a lles a sicrhau profiadau ysgogol i'r disgyblion mewn awyrgylch gynhaliol a chefnogol Gymreig. Maent yn rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus iawn gyda'r holl staff, y disgyblion, y rhieni a'r llywodraethwyr, sy'n arwain yn llwyddiannus at ddisgwyliadau uchel o werthoedd addysgol clir ac amcanion uchelgeisiol ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Nodwedd arbennig o waith yr ysgol yw'r modd y mae'r pennaeth yn dosrannu cyfrifoldebau'n hynod effeithiol a phwrpasol ymhlith y staff. Mae hyn yn rhan greiddiol o'i strategaeth ac yn fodd effeithiol i ddatblygu staff, hybu cydweithio llwyddiannus a rhannu arfer dda. Mae rolau staff a'u cyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir ac mae gweithdrefnau cyfathrebu eglur yn bodoli rhwng yr holl staff. Mae hyn yn hyrwyddo gwaith tîm o ansawdd uchel. Mae'r holl athrawon yn ymateb yn frwdfrydig iawn wrth ddatblygu meysydd ac agweddau dysgu er mwyn codi safonau disgyblion. Enghraifft hynod effeithiol o hyn yw'r modd y mae'r holl athrawon yn gweithredu strategaethau lles a meddylgarwch. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob disgybl yn meddu ar y medrau hanfodol sydd eu hangen arnynt i'w galluogi i ddysgu'n effeithiol a dangos parodrwydd i fynd i'r afael â phrofiadau newydd.

Mae parodrwydd y pennaeth a'r holl staff i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol a wynebu newidiadau a datblygiadau cyfredol ym myd addysg gyda hyder a chreadigrwydd yn nodwedd arbennig. Mae'r athrawon yn cydweithio'n hynod effeithiol wrth addasu'r ddarpariaeth ar gyfer sefydlu cwricwlwm newydd i Gymru trwy greu cwricwlwm creadigol, ymarferol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl ac yn tanio'u dychymyg. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith hyn ar ddeilliannau disgyblion. Mae strategaethau addysgu cytûn wedi eu sefydlu ar draws yr ysgol, gyda phwyslais amlwg ar sicrhau bod disgyblion yn rhan weithredol o'u dysgu. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn awyddus i gwblhau tasgau i lefelau uchel, yn falch o'u gwaith ac yn ei berchnogi. Mae brwdfrydedd staff wrth sefydlu'r Fframwaith Digidol a hybu'r iaith Gymraeg ar draws yr ysgol hefyd yn esgor yn eithriadol o lwyddiannus ar safonau uchel ymysg y disgyblion.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o adolygu parhaus a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r trefniadau hunanwerthuso yn drylwyr a llwyddiannus iawn ac yn galluogi arweinwyr i fonitro perfformiad yr ysgol yn effeithiol. Mae tystiolaeth uniongyrchol o ystod eang o ffynonellau yn cyfrannu'n effeithiol at y broses, ac yn cynnwys safbwyntiau a barn disgyblion a rhieni. Mae hyn yn sicrhau hinsawdd lwyddiannus o dargedu a herio disgyblion i gyrraedd hyd eithaf eu gallu a gwneud gwelliannau parhaus a chyraeddadwy. Mae gan staff berchnogaeth gref o'r broses sicrhau gwelliant ac maent yn gwerthuso cynnydd yn ofalus ac yn cyflwyno adolygiadau trylwyr yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i wella yn flynyddol. Enghraifft dda iawn o hyn yw'r gwelliant amlwg yn natblygiad iaith lafar ac ysgrifennu disgyblion dros gyfnod.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad cadarn, ac mae cyfleoedd hyfforddi llwyddiannus yn deillio ohoni i hyrwyddo dysgu proffesiynol staff. Mae hyn wedi arwain at gymuned addysgu gref lle mae staff yn dysgu a datblygu gyda'i gilydd yn effeithiol iawn. Mae hyfforddiant ar y cyd ag ysgolion lleol yn ychwanegu'n dda at ddysgu proffesiynol y staff. Enghraifft hynod effeithiol o hyn yw ymroddiad athrawon wrth gyflwyno strategaethau asesu ar gyfer dysgu cytûn er mwyn sicrhau bod disgyblion yn derbyn adborth mwy effeithiol am eu gwaith.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddgar ac yn gefnogol i'r ysgol. Trwy ymweld â'r ysgol a chwarae rhan flaenllaw yn ei gweithdrefnau monitro, hunanwerthuso a chynllunio strategol, mae gan aelodau'r corff wybodaeth drylwyr am ei pherfformiad. Mae hyn, ynghyd â derbyn adroddiadau pwrpasol gan y pennaeth, staff a disgyblion, yn arwain at eu dealltwriaeth drylwyr o gryfderau'r ddarpariaeth a'r meysydd i'w gwella. Mae hyn yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif a helpu i osod cyfeiriad strategol clir i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu effeithiol iawn. Maent yn neilltuo cyllid yn briodol er mwyn bodloni'r blaenoriaethau gwella, er enghraifft wrth sicrhau bod gan yr ysgol adnoddau pwrpasol, fel offer TGCh, sy'n llwyddo i ymestyn cyfleoedd gwerthfawr i'r dysgu ac addysgu. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o grantiau'n fwriadus, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i gyfoethogi'r ddarpariaeth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/07/2019